

# Coflyfr y Cod Ymddygiad

Rhifyn 7 Ionawr 2016

## Tu fewn

Cyflwyniad 1

## Crynodebau Achosion

Dim tystiolaeth o dor-amod 3

Nid oes angen gweithredu 4

Cyfeiriwyd at bwylgor safonau 5

Cyfeiriwyd a Banel Dyfarnu Cymru 6

Mwy o Wybodaeth 7

## Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan driwlynlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

(Parheir trosodd)

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu driwlynys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwyl hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawriad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn gorchuddio Hydref i Ragfyr 2015, ond hefyd yn cynnwys crynodebau achosion henach, ble mae gwrandawiadau pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru wedi ei gynnal yn ystod y cyfnod yma.

## Crynodebau Achosion

### Dim tystiolaeth o dor-amod

#### **Cyngor Caerdydd – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**

#### **Cyfeirnod achos 201408688 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Hydref 2015**

Cafwyd cwyn fod aelod o Gyngor Caerdydd (“y Cynghorydd”) wedi torri’r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau drwy ddefnyddio ei swydd mewn ffordd amhriodol i gael gwybodaeth “gyfrinachol” yn ymwneud ag aelod arall o Gyngor Caerdydd ac o rannu’r wybodaeth hon â’i phlaid er mwyn creu anfantais iddo ef ac i ddibenion gwleidyddol.

Cafwyd tystiolaeth gan Gyngor Caerdydd a nifer o aelodau etholedig.

Cafodd y Cynghorydd ei chyfweld a dywedodd ei bod wedi cael cais am wybodaeth gan sefydliad allanol a bod ei rôl fel cynghorydd yn golygu bod yn rhaid iddi ofyn am gyngor priodol ac i weithredu’n unol â’r cyngor hwnnw.

Daeth yr Ombwdsmon i’r casgliad nad oedd yn afresymol i’r Cynghorydd i ddibynnu ar y cyngor a roddwyd iddi ac ar sail hynny ni chafodd ei argyhoeddi fod y dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu ei bod wedi torri’r Cod Ymddygiad.

## **Nid oes angen gweithredu**

### **Cyngor Sir Penfro – Gonestrwydd / Datgelu a chofrestru buddiannau Cyfeirnod achos 201500279/201500292 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Rhagfyr 2015**

Cafwyd cwyn fod aelod o Gyngor Sir Penfro wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy geisio dylanwadu ar benderfyniad a wnaethpwyd gan y Cyngor mewn mater lle'r oedd ganddo fuddiant rhagfarnus, nad oedd wedi cymryd sylw o gyngor perthnasol a roddwyd gan Swyddog Monitro'r Cyngor a'i fod wedi ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried a fyddai'n dwyn anfri ar ei awdurdod.

Cafwyd tystiolaeth gan y Cyngor a chynhaliwyd cyfweiliad ffurfiol â'r Cynghorydd.

Roedd y Cynghorydd wedi datgan buddiant rhagfarnus, ond roedd yn amlwg yn y cyfweiliad nad oedd yn credu bod ei fuddiant yn y mater yn rhagfarnus. Roedd y Cynghorydd wedi gweithredu'n groes i gyfarwyddyd y Pwyllgor Safonau ac roedd wedi gwrthod cyngor y Swyddog Monitro, gyda'r ddau'n seiliedig ar ei ddatganiad bod ganddo fuddiant rhagfarnus. Nid oedd y gweithredoedd hyn yn briodol a gellid ystyried ei fod wedi torri'r Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, pe bai'r Cynghorydd wedi ystyried ei sefyllfa'n llawn ar y cychwyn, efallai na fyddai wedi datgan buddiant rhagfarnus. Ers y digwyddiadau hyn, roedd y Cynghorydd wedi gofyn am ac wedi cydymffurfio â chyngor y Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau.

Penderfynodd yr Ombwdsmon na fyddai'n gymesur nac er lles y cyhoedd i gymryd camau pellach yn erbyn y Cynghorydd.

### **Cyngor Tref Llanelli – Gwrthrychedd a phriodoldeb Achos Rhif: 201500965 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Rhagfyr 2015**

Cafwyd cwyn y gallai aelod o Gyngor Tref Llanelli, o ganlyniad i'w ymddygiad mewn digwyddiad, fod wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy ei fethiant i ddangos parch ac ystyriaeth at eraill, o fwlio neu aflonyddu ar unigolyn arall, o ddefnyddio adnoddau ei awdurdod yn annoeth a'i fod wedi dwyn anfri ar ei awdurdod. Honnwyd fod y Cynghorydd wedi bod yn yfed yn ormodol ar draul y trethdalwyr, wedi cam-drin aelodau staff yn eiriol a'i fod wedi ymddwyn mewn modd treisgar tuag at westai arall yn y digwyddiad.

Cafwyd nifer o ddatganiadau gan dystion a chynhaliwyd cyfweiliad ffurfiol â'r Cynghorydd. Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd y dystiolaeth yn ddigon cadarn i fodloni Pwyllgor Safonau neu Bwyllgor Dyfarnu Cymru fod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri ac y byddai sancsiwn yn briodol, felly nid oedd angen gweithredu ymhellach.

## **Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau**

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn.

## **Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru**

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn.

## Mwy o Wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at [Matthew.Aplin@ombudsman-wales.org.uk](mailto:Matthew.Aplin@ombudsman-wales.org.uk) neu [Lucy.Geen@ombudsman-wales.org.uk](mailto:Lucy.Geen@ombudsman-wales.org.uk), neu i'r cyfeiriad canlynol:

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**  
**1 Ffordd yr Hen Gae**  
**Pencoed**  
**CF35 5LJ**

**Ffôn**                    **01656 644200**  
**Ffacs**                    **01656 641199**  
**e-bost**                    **[holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk](mailto:holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk) (ymholiadau cyffredinol)**

**Dilynwch ni ar Twitter:** [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan [www.ombwdsmon-cymru.org.uk](http://www.ombwdsmon-cymru.org.uk)